# Cynigion i'r Cyfarfod Cyffredinol – i'w trafod trwy'r dull pleidleisio

*Noder: trafodir y cynigion hyn trwy'r dull arferol o drafodaeth a phleidlais. Rhaid oedd i unrhyw welliannau i'r cynigion hyn gyrraedd y swyddfa erbyn 5.30, dydd Llun, 30 Medi. Mewn sefyllfaoedd eithriadol, os dymunir cynnig gwelliannau pellach ar y cynnig yn ystod y Cyfarfod, gellir penderfynu gollwng y Rheolau Sefydlog a chynnal trafodaeth er mwyn cyrraedd at benderfyniad trwy gonsenws (gweler adran 11 y Cyfansoddiad am fanylion pellach).*

## 1. Hawliau llawn i'r Gymraeg

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cymeradwyo ymdrechion aelodau Rhanbarth Ceredigion i sicrhau bod Swyddfa Bost Aberystwyth, o fewn siop WH Smith, yn gweithredu hawliau llawn i'r cyhoedd fedru gweld, clywed a defnyddio'r Gymraeg.

Galwn ar y Swyddfa Bost i fabwysiadu a gweithredu polisi iaith Gymraeg cynhwysfawr ar draws Cymru yn yr holl wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ac yn y gwasanaethau a gomisiynir trwy gwmnïau preifat fel WH Smith.

Bwriada'r Grŵp Hawl i'r Gymraeg annog aelodau a chefnogwyr y Gymdeithas i ymgyrchu yn lleol dros arwyddion, ffurflenni, staffio, gwasanaethau cownter a gwe yn Gymraeg.

Nodwn mai ymgyrch dros statws i'r Gymraeg yn y Swyddfa Bost oedd un o ymgyrchoedd cynnar y Gymdeithas. Mae diffygion y Swyddfa Bost yn enghraifft glir o'r angen am ddeddfwriaeth i orfodi cwmnïau ar draws y sector breifat i weithredu'n Gymraeg. Nodwn hefyd fod yr achosion llys diweddar ynghylch diffyg defnydd o'r Gymraeg gan gwmnïau meysydd parcio preifat yn enghraifft amlwg arall, fel hefyd y mae torri a diffyg gwasanaethau Cymraeg nifer o fanciau.

Mae'n glir bod angen mesurau cyfreithiol newydd i sicrhau hawliau llawn i bobl Cymru fedru defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chwmnïau a chyrff sy'n gweithredu yn y sector breifat.

Ymhellach, noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod yna ddiffygion o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg yn y sector gyhoeddus gyda methiannau cyson gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i ddarparu neu ddatblygu gwasnaethau digonol yn Gymraeg

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol felly am drafodaeth gyhoeddus ar Fesur y Gymraeg 2011 gyda golwg ar gyflwyno mesurau cyfreithiol newydd fydd yn sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg ar draws ein cymunedau ynghyd â hawliau go iawn i bobl fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

*Cynigir gan y Grŵp Hawl i'r Gymraeg*

## 2. Diffiniad aelodaeth

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle i ddiogelu pawb sy'n ymwneud â gweithgarwch Cymdeithas yr Iaith, ac yn diolch i'r Senedd am addasu a chreu polisïau a chodau ymddygiad perthnasol i sicrhau hynny.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cynnig felly bod adran 4 o'r Cyfansoddiad yn cael ei newid o:

***4. AELODAETH***

*Gall unrhyw un fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith sydd:*

*a. wedi llenwi ffurflen ymaelodi a drwy hynny datgan ei fwriad i ymuno â'r Gymdeithas*

*b.* *wedi talu'r tâl aelodaeth, fel y'i pennir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith*

*c.* *yn fodlon hyrwyddo amcanion Cymdeithas yr Iaith*

*ch.* *yn cytuno i ufuddhau i gyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith.*

i:

***4. AELODAETH***

*Gall unrhyw un fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith sydd:*

*a.* *wedi llenwi ffurflen ymaelodi a drwy hynny datgan ei fwriad i ymuno â'r Gymdeithas*

*b.* *wedi talu'r tâl aelodaeth, fel y'i pennir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith*

*c.* *yn fodlon hyrwyddo amcanion Cymdeithas yr Iaith*

*ch.* *yn cytuno i weithredu yn unol â chyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith, y Cod Ymddygiad i Aelodau a'r Cyhoedd a'r Cod Ymddygiad i Wirfoddolwyr (os yn berthnasol).*

*Cynigir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith*

## 3. Datblygu Economaidd

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn croesawu gwaith gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar yr economi wrth gydnabod ei fod yn faes allweddol i ddyfodol y Gymraeg. Mae'r adroddiad yn tanlinellu pwysigrwydd ymyraethau a strategaethau datblygu economaidd sydd yn gosod cynaliadwyedd y Gymraeg yn elfen graidd o'i amcanion.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn nodi'r argymhellion yn yr adran ar yr economi yn Adroddiad y Comisiwn ac yn galw ar y Llywodraeth i ymateb ar fyrder i'r argymhellion.

Serch hynny, mae angen i Awdurdodau Lleol o fewn Rhanbarth Arfor osod *"cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg"* fel prif amcan rhaglenni adfywio a strategaethau datblygu economaidd.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol felly ar Gyngor Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd a Môn i gydnabod yr amcan hwn yn eu gweithgarwch adfywio a datblygu economaidd, ac i gynghorau eraill fel Conwy, Dinbych, Powys a Phenfro hefyd fod yn ymwybodol o'r angen

*Cynigir gan Ranbarth Caerfyrddin-Penfro*

# Cynigion i'r Cyfarfod Cyffredinol – i'w trafod trwy'r dull consensws

*Noder: nod y sesiwn yma fydd trafod cynigion a chyrraedd penderfyniad trwy gonsensws.*

*(i) Mewn trafodaeth, bydd y Cadeirydd yn sicrhau cyfle teg i unrhyw rai sy'n dymuno cyfrannu ac, yn ogystal, yn sicrhau bod y drafodaeth yn berthnasol.*

*(ii) Os na ellir cyrraedd penderfyniad trwy gonsensws o fewn amserlen rhesymol, yna symudir i bleidlais syml (gweler adran 11 y Cyfansoddiad am fanylion pellach).*

*(iii) Bydd y Cadeirydd yn defnyddio eu disgresiwn i gyfyngu ar amser unrhyw drafodaeth a symud i bleidlais.*

## 4. Newidiadau i strwythur y Senedd

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn cydnabod:

- yr heriau sy'n wynebu unigolion wrth ymrymo i swyddi ar y Senedd
- pwysigrwydd sicrhau presenoldeb teilwng yng nghyfarfodydd y Senedd
- yr angen i ailedrych ar strwythur ac aelodaeth y Senedd o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod gan y Gymdeithas gorff rheoli effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol felly yn cynnig bod y Senedd yn newid y drefn o gyfarfodydd misol i gyfarfodydd bob deufis, gan gynnal cyfarfodydd byrrach arlein yn y misoedd eraill os bydd unrhyw faterion brys sydd angen penderfyniad gan y Senedd yn codi. O'r cyfarfodydd deufisol, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd a Rhanbarthau a Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol (sy'n cynnwys rhyngwladol, codi arian, dysgwyr, ariannol gweinyddol a chyfathrebu) bob yn ail.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol hefyd yn cynnig:

- dileu swydd y Swyddog Adloniant a chaniatáu'r Senedd i benodi, yn ôl yr angen, Swyddog Gigs Eisteddfod
- dileu swydd y Swyddog Mentrau Masnachol gan ychwanegu 'nwyddau' at ddyletswyddau'r Swyddog Codi Arian
- gwaredu'r Swyddog Aelodaeth fel aelod o'r Senedd gan roi 'hyrwyddo aelodaeth a thynnu aelodau mewn i weithgarwch y Gymdeithas' fel rhan o waith y Grŵp Cyfathrebu a gwneud y Swyddog Aelodaeth yn aelod o'r grŵp hwnnw
- newid Swyddog y We i fod yn Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol
- creu swydd newydd – Swyddog Cyswllt Colegau – i ddenu pobl ifanc 16+ at waith y Gymdeithas.

Byddai hyn yn newid adran 6 y Cyfansoddiad i (nodir y darnau sy'n newid mewn coch isod):

**6. Y SENEDD**

a. Senedd Cymdeithas yr Iaith fydd yn rheoli'r Gymdeithas rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol o'i haelodau oddi fewn i ganllawiau polisi a osodir gan Gyfarfodydd Cyffredinol.

b. Bydd y Senedd yn cwrdd pum gwaith y flwyddyn ond ceidw'r hawl i gynnal cyfarfodydd ychwanegol rhwng y cyfarfodydd hyn os bydd unrhyw faterion brys yn codi.

c. Yn ystod blwyddyn arferol, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd a Rhanbarthau deirgwaith a Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol ddwywaith.

ch. Bydd cyfarfodydd y Senedd yn cynnwys yr aelodau a nodir yn is-adran (f). Dim ond yr aelodau hyn fydd â hawl i bleidleisio, er bod hawl gan unrhyw aelod i fynd i gyfarfod o'r

Senedd.

d. Rhaid sicrhau cworwm o 8 o aelodau'r Senedd er mwyn i'r Senedd allu wneud penderfyniadau dilys yn ystod y cyfarfod.

dd. Aelodau’r Gymdeithas fydd yn gyfrifol am ethol aelodau i wasanaethu ar y Senedd am gyfnod o flwyddyn. Mae gan bob aelod o’r Gymdeithas hawl i enwebu unrhyw aelod arall ar gyfer unrhyw swydd drwy lenwi’r ffurflen enwebiadau a fydd yn cael ei hanfon at sylw’r holl aelodau yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol.

e. Gan fod staff cyflogedig eisoes yn aelodau llawn o'r Senedd ac yn atebol iddi, ni allent dderbyn rôl arall arni. Os yw aelod o'r Senedd yn derbyn swydd cyflogedig gyda’r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r swydd wirfoddol. Bydd gan y Senedd hawl i gyfethol unrhyw aelod o’r Gymdeithas i'r swydd wag honno hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

f. Mae gan bob aelod o’r Gymdeithas hawl i bleidleisio dros unrhyw aelod arall sydd wedi derbyn enwebiad ar gyfer unrhyw swydd, trwy bleidlais gudd yn y Cyfarfod Cyffredinol, gyda phleidleisiau o bell ar gael ar gais i aelodau na allant fod yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol.

ff. Bydd y swyddogion etholedig yn cael eu henwi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol. Gall unrhyw swyddi gwag gael eu llenwi trwy bleidlais yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol.

g. Gan y Cyfarfod Cyffredinol y mae'r hawl i ychwanegu, dileu neu newid natur unrhyw swydd ar y Senedd. Os oes sefyllfa yn codi lle mae’n rhaid creu swydd newydd ar y Senedd rhwng dau Gyfarfod Cyffredinol, mae hawl gan Senedd y Gymdeithas i wneud hynny, ond rhaid cadarnhau unrhyw benderfyniad o’r fath yn y Cyfarfod Cyffredinol dilynol.

ng. Os bydd un o’r swyddi a etholwyd gan y Cyfarfod Cyffredinol yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn, mae gan y Senedd hawl i gyfethol unrhyw aelod o’r Gymdeithas i wasanaethu hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf. Mae deiliaid y swyddi canlynol fel y’u hetholwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith yn aelodau llawn o’r Senedd:

- Cadeirydd Cenedlaethol, a fydd yn gyfrifol am reoli'r Gymdeithas rhwng cyfarfodydd y Senedd
- Is-gadeirydd Ymgyrchoedd, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu'n weithredol
- Is-gadeirydd Cyfathrebu, a fydd yn gyfrifol am gydlynu gwaith cyfathrebu'r Gymdeithas
- Is-gadeirydd Gweinyddol, a fydd yn gyfrifol am ein gweinyddiaeth
- Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol, a fydd yn gyfrifol am ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol
- Swyddog Dysgwyr, a fydd yn gyfrifol am drefnu darpariaeth i bobl ddysgu’r iaith
- Trysorydd, a fydd yn gyfrifol am faterion ariannol y Gymdeithas
- Swyddog Codi Arian, a fydd yn gyfrifol am weithgarwch codi arian, gan gynnwys nwyddau
- Golygydd y Tafod, a fydd yn gyfrifol am drefnu a golygu cylchgrawn y Gymdeithas
- Swyddog Dylunio, a fydd yn gyfrifol am drefnu gwaith dylunio'r Gymdeithas, gan gynnwys y Tafod
- Swyddog Rhyngwladol, a fydd yn datblygu ein perthynas gydag ymgyrchwyr iaith eraill
- Swyddog Cyswllt Coleg, a fydd yn gyfrifol am ddenu pobl ifanc 16+ at waith y Gymdeithas

- Cadeirydd y Grŵp Hawl i'r Gymraeg
- Is-gadeirydd y Grŵp Hawl i'r Gymraeg
- Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Lles
- Cadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Is-gadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Cadeirydd y Grŵp Addysg
- Is-gadeirydd y Grŵp Addysg
- Cadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol
- Is-gadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol.

Bydd Swyddog Aelodaeth hefyd yn cael ei ethol, yn gyfrifol am hyrwyddo aelodaeth a thynnu aelodau mewn i weithgarwch y Gymdeithas, ond ni fydd yn aelod o'r Senedd.

h. Os na all Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw grŵp ymgyrchu fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Senedd, dylai'r grŵp ddewis cynrychiolydd arall i'w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

i. Bydd Cadeirydd pob rhanbarth, wedi'u hethol gan eu rhanbarthau, hefyd yn aelodau llawn o'r Senedd gyda'r un hawl i bleidleisio. Os na all Cadeirydd y rhanbarth fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Senedd, dylai'r rhanbarth ddewis cynrychiolydd arall i'w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

j. Bydd holl swyddogion cyflogedig y Gymdeithas yn aelodau llawn o'r Senedd yn ddiofyn. Y Senedd fydd yn penodi swyddogion cyflogedig.

*Cynigir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith*

## 5. Gorchymyn Erthygl 4

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn croesawu penderfyniad Cyngor Gwynedd i gymeradwyo cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Mae hyn yn golygu rheoli'r defnydd o dai fel bod angen caniatâd cynllunio i newid defnydd tŷ preswyl i lety neu dŷ gwyliau o 1 Medi 2024. Nid yw'r broblem yn gyfyngedig i Wynedd:

- yn 2023 ymwelodd oddeutu 9.4 miliwn o ymwelwyr â Chymru (gwefan Visit Wales)
- rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2023 roedd 1,027,620 o nosweithiau aros tymor byr yng Nghymru (yn ôl data o dri platfform gosod arlein yn unig: mae llawer o blatfformau).

Mae'n hanfodol felly bod Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn gweithredu Erthygl 4. Eisoes mae Rhanbarth Gwynedd-Môn wedi ymrwymo i ymgyrchu i sicrhau bod Cyngor Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dilyn esiampl Cyngor Gwynedd.

Er mwyn gweithredu hyn yn effeithiol mae'n bwysig bod cofrestr cyflawn o lety gwyliau, gan gynnwys Airbnb, yn cael ei gadw gan pob awdurdod lleol.

Yr ydym yn credu hefyd bod llais cymdogion yn hanfodol wrth ganiatáu trwydded, fel sydd yn digwydd yn yr Alban. Yr ydym yn cefnogi deiseb Rhoi Llais i Gymdogion Llety Gwyliau: https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/246263.

Yn ogystal â chofrestr llety gwyliau, mae'n bwysig bod cofrestr diddordebau Aelodau Senedd Cymru a swyddogion awdurdodau lleol (sy'n ymwneud ag eiddo) yn dryloyw ac yn nodi'n union y math o eiddo sydd ganddynt.

Yn sgil hyn oll, mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn galw ar Senedd y Gymdeithas, y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy

a rhanbarthau'r Gymdeithas i ymgyrchu er mwyn sicrhau bod pob Awdurdod Cynllunio yn dilyn esiampl Gwynedd fel y bydd Erthygl 4 yn weithredol trwy Gymru.

Ymhellach, yr ydym yn galw ar bawb i ledaenu a llofnodi'r ddeiseb uchod.

Rydym hefyd yn galw hefyd ar awdurdodau cynllunio ac Aelodau Senedd Cymru i gadw cofrestr sy'n nodi'r math o eiddo sydd ganddynt os oes angen datgan diddordeb.

Yn ogystal, rydym yn galw ar Senedd Cymru i:

- sefydlu cofrestr o bob llety gwyliau yng Nghymru (gan gynnwys Airbnbs)
- symud pob llety gwyliau nad ydynt yn cael eu marchnata fel eiddo masnachol o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr treth cyngor (yn unol ag Argymhellion 5 a 7 adroddiad Dr Simon Brooks *Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru*).

  **Ni ddylai taliadau treth y cyngor ariannu rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer eiddo preswyl sy'n cael eu defnyddio fel gosodiadau gwyliau tymor byr.**

*Cynigir gan Ranbarth Gwynedd-Môn*

## 6. Rhyddid i Balesteina

Collfarna'r Cyfarfod Cyffrediol yn y termau cryfaf posibl:

- y llofruddiaethau o ddegau o filoedd o Balestiniaid, gan gynnwys dros ddeg mil o blant, gan wladwriaeth Israel
- y trais a gyflawnir gan Hamas yn erbyn pobl ddiniwed yn Israel
- y gyfundrefn apartheid a sefydlir a chynhelir gan wladwriaeth Israel ym Mhalesteina
- yr hil-laddiad, carthu ethnig a throseddau rhyfel a gyflawnwyd gan wladwriaeth Israel yn erbyn pobl Gaza a Phalestiniaid eraill
- y cynnydd mewn gwrth-semitiaeth ac Islamoffobia yng Nghymru ac ar draws y byd yn sgil troseddau Llywodraeth Israel
- cefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol llywodraethau'r Gorllewin, yn benodol y Deyrnas Gyfunol a'r Unol Daleithiau, i wladwriaeth apartheid Israel
- Gweinidogion Llywodraeth Israel sy'n gyfrifol am droseddau rhyfel, gan gynnwys hil-laddiad.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol

- pwysigrwydd hanfodol diogelu hawliau sylfaenol pobl Palesteina i benderfynu ar eu dyfodol eu hunain
- bod y gyfundrefn apartheid ormesol gynyddol a gynhelir gan Lywodraeth Israel yn gwneud datrysiad dwy wladwriaeth yn llai tebygol o wireddu heddwch cyfiawn
- y galwadau am un wladwriaeth gwbl ddemocrataidd Israel-Balesteina (boed yn un ffederal, dwy-genedl neu fel arall).

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

- bod sicrhau cydnabyddiaeth o wladwriaeth Palesteina gan y Cenhedloedd Unedig yn gam pwysig tuag at heddwch cyfiawn
- y dylid mynnu hawliau dynol a sifil llawn a chyfartal i bob trigolyn yn Israel-Balesteina;
- ei bod yn hanfodol bod gan fenywod cynrychiolaeth gyfartal mewn trafodaethau heddwch
- y dylai'r awdurdodau yn y rhanbarth weithredu a pharchu cyfraith ryngwladol yn ddieithriad
- nad oes modd cyrraedd datrysiad heddychlon a chyfiawn dan arweinyddiaeth yr Unol Daleithiau sydd wedi ariannu ac arfogi Llywodraeth apartheid Israel
- y dylai Gweinidogion a Llywodraeth Israel fod yn atebol i lysoedd rhyngwladol am eu

gweithredoedd a'r cyhuddiadau eu bod wedi torri cyfraith ryngwladol

- dylai'r broses heddwch gael ei harwain gan gynrychiolwyr etholedig sydd â hygrededd yn eu cymunedau a'u cenhedloedd
- bod cyfrifoldeb ar Gymru i gefnogi dulliau di-drais o atal Llywodraeth Israel rhag cyflawni troseddau rhyfel a chynnal apartheid ym Mhalesteina.

Felly, galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar i:

- bobl Cymru a'i chynrychiolwyr i gefnogi boicot o wladwriaeth Israel o ymwneud â'r gymuned rhyngwladol fel llywodraeth arferol
- pob aelod o Gymdeithas yr Iaith a Senedd y Gymdeithas i gefnogi boicot economaidd a diwylliannol o wladwriaeth apartheid Israel.

Ymhellach, cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol i Senedd y Gymdeithas alw am, ac i gefnogi hyd ei gallu:

- diarddel Llysgennad Israel o Brydain
- Llywodraeth Prydain a'r byd i wahardd gwerthu arfau i wladwriaeth Israel
- Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain i atal rhag buddsoddi mewn a gwerthu arfau i Lywodraeth Israel
- cynghorau, gan gynnwys eu cronfeydd pensiwn, i ddadfuddsoddi o gwmnïau sy'n cefnogi gwladwriaeth apartheid Israel
- pob cymdeithas chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol yng Nghymru i foicotio Israel
- yr ymgyrch ryngwladol Boicotio, Dadfuddsoddi a Sancsiynau ac ymgyrchoedd heddychlon cyffelyb sy'n trin gwladwriaeth Israel fel gwladwriaeth pariah.

*Cynigir gan Ranbarth Ceredigion*